

# Crynodeb o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn gytundeb rhyngwladol sy'n gwarchod hawliau dynol plant o dan 18 oed. Yn ogystal â chydabod eu hawliau dynol sylfaenol, mae'n rhoi hawliau ychwanegol iddynt i'w diogelu rhag niwed fel un o'r grwpiau mwyaf bregus yn ein cymdeithas.

Yn 2011, cafodd y Confensiwn ei wneud yn gyfraith gwlad yng Nghymru gan Lywodraeth Cymru trwy Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011. Mae'n rhoi dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i'r Confensiwn a'i brotocolau dewisol wrth wneud penderfyniadau.

Mae 54 o erthyglau yn y confensiwn. Mae Erthyglau 43-54 yn ymwneud â sut y dylai oedolion a llywodraethau weithio gyda'i gilydd i sicrhau bod gan bob plentyn hawl i'w hawliau. Mae'r wybodaeth a geir yma yn ymdrin ag erthyglau 1-42 sy'n cyflwyno sut y dylai plant gael eu trin.

I ddarllen y testun llawn o Gonfensiwn y CU ewch i:  
[http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/UNCRC\\_PRESS200910web.pdf](http://www.unicef.org.uk/Documents/Publication-pdfs/UNCRC_PRESS200910web.pdf)

## I gael rhagor o wybodaeth am Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ewch i:

Wefan CCUHP Llywodraeth Cymru  
[llyw.cymru/hawliau-plant](http://llyw.cymru/hawliau-plant)

e-bost CCUHP Llywodraeth Cymru  
[hawliauplant@llyw.cymru](mailto:hawliauplant@llyw.cymru)

Cymru Ifanc  
[www.cymruifanc.cymru](http://www.cymruifanc.cymru)

Comisiynydd Plant Cymru  
[www.childcomwales.org.uk](http://www.childcomwales.org.uk)

Gellir gweld 'Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011' yn:  
<http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/2/contents>



@C\_R\_Wales @ChildrensRightsWales

### Erthygl 1

Mae gan bob un dan ddeunaw oed yr hawliau sydd yn y Confensiwn hwn.

### Erthygl 2

Mae'r Confensiwn yn gymwys i bob un, beth bynnag fo'i hil, ei grefydd, ei alluoedd, beth bynnag y mae'n ei feddwl neu'n ei ddweud a pha fath bynnag o deulu y daw ohono.

### Erthygl 3

Dylai pob sefydliad sy'n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn.

### Erthygl 4

Dylai llywodraethau ofalu bod yr hawliau hyn ar gael i blant.

### Erthygl 5

Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfeirio ac arwain eu plant fel eu bod, wrth dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio'u hawliau'n briodol.

### Erthygl 6

Mae gan bob plentyn hawl i fyw. Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach.

### Erthygl 7

Mae gan bob plentyn hawl i enw a gofrestrwyd yn gyfreithiol, hawl i genedligrwydd a hawl i adnabod ei rieni ac, i'r graddau sy'n bosibl, i dderbyn gofal ganddynt.

### Erthygl 8

Dylai llywodraethau barchu hawl plant i enw, cenedligrwydd a chlymau teulu.

### Erthygl 9

Ni ddylid gwahanu plant oddi wrth eu rhieni onid yw hyn er eu lles nhw'u hunain, er enghraifft os yw rhiant yn cam-drin neu'n esgeuluso plentyn. Mae gan blant y mae eu rhieni wedi gwahanu hawl i gadw mewn cysylltiad â'r ddau riant, oni fyddai hyn yn niweidio'r plentyn.

### Erthygl 10

Dylai teuluoedd sy'n byw mewn gwledydd gwahanol gael yr hawl i symud rhwng y gwledydd hynny fel y gall y rhieni a'r plant gadw mewn cysylltiad neu ddod at ei gilydd fel teulu.

### Erthygl 11

Dylai llywodraethau gymryd camau i gadw plant rhag cael eu cymryd allan o'u gwledydd nhw'u hunain yn anghyfreithlon.

### Erthygl 12

Mae gan blant yr hawl i ddweud eu barn ynghylch yr hyn a ddylai ddiwydd pan fo oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arny'n nhw, ac i'w barn gael ei hystyried.

### Erthygl 13

Mae gan blant yr hawl i gael a rhannu gwybodaeth ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw ac i eraill.

### Erthygl 14

Mae gan blant yr hawl i feddwl a chredu'r hyn a fynnant ac i arfer eu crefydd, cyhyd ag nad ydynt yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. Dylai rhieni arwain eu plant yn y materion hyn.

### Erthygl 15

Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac i ymuno â grwpiau a sefydliadau, onid yw hyn yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.

### Erthygl 16

Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu cadw rhag ymosodiadau ar eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi.

### Erthygl 17

Mae gan blant yr hawl i wybodaeth ddibynadwy gan y cyfryngau torfol. Dylai teledu, radio a phapurau newydd roi gwybodaeth y gall plant ei deall ac ni ddylent hybu deunyddiau a allai niweidio plant.

### Erthygl 18

Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni trwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

### Erthygl 19

Dylai llywodraethau ofalu bod plant yn cael y gofal priodol, a'u cadw rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n edrych ar eu hól.

### Erthygl 20

Rhaid i bobl sy'n parchu eu crefydd, eu diwylliant a'u hiaith edrych ar ôl plant na all eu rhieni ofalu amdanynt.

### Erthygl 21

Pan fo plant yn cael eu mabwysiadu, yr ystyriaeth gyntaf yw'r hyn sydd orau iddyn nhw. Dylai'r un rheolau gael eu cymhwyso os yw'r plant yn cael eu mabwysiadu yn y wlad lle y'u ganwyd neu'n cael eu cymryd i fyw mewn gwlad arall.

### Erthygl 22

Dylai plant sy'n dod i wlad fel ffoaduriaid gael yr un hawliau â phlant a anwyd yn y wlad honno.

### Erthygl 23

Dylai plant sydd ag anabledd o unrhyw fath gael gofal arbennig a chefnogaeth fel y gallant fyw bywyd llawn ac annibynnol.

### Erthygl 24

Mae gan blant yr hawl i gael gofal iechyd o ansawdd da ac i ddŵr glân, bwyd maethlon ac amgylchedd glân er mwyn iddyn nhw gadw'n iach. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 25

Dylai sefyllfa plant y mae eu hawdurdod lleol yn hytrach na'u rhieni yn gofalu amdanynt gael ei hadolygu'n rheolaidd.

### Erthygl 26

Dylai'r Llywodraeth roi mwy o arian ar gyfer plant teuluoedd mewn angen.

### Erthygl 27

Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ddiwallu eu hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio darparu hyn.

### Erthygl 28

Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn.

### Erthygl 29

Dylai addysg ddatblygu personoliaeth a doniau pob plentyn eu gyflawn. Dylai annog plant i barchu eu rhieni, eu diwylliant nhw ac eraill ac yr amgylchedd.

### Erthygl 30

Mae gan blant yr hawl i ddefnyddio iaith ac arferion eu teuluoedd, p'un ai yw'r rhain yn cael eu rhannu gan fwyafriif y bobl neu beidio.

### Erthygl 31

Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

### Erthygl 32

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag gwaith sy'n beryglus neu a allai amharu ar eu hiechyd neu eu haddysg.

### Erthygl 33

Dylai'r Llywodraeth ddarparu ffyrdd o gadw plant rhag cyffuriau peryglus.

### Erthygl 34

Dylai'r Llywodraeth gadw plant rhag camdriniaeth rywiol.

### Erthygl 35

Dylai'r Llywodraeth ofalu na chaiff plant eu cipio neu eu gwerthu.

### Erthygl 36

Dylai plant gael eu gwarchod rhag gweithgarwch a allai amharu ar eu datblygiad.

### Erthygl 37

Ni ddylid trin plant sy'n torri'r gyfraith yn greulon. Ni ddylid eu rhoi mewn carchar gydag oedolion a dylid eu cadw mewn cysylltiad â'u rhieni.

### Erthygl 38

Ni ddylai llywodraethau adael i blant dan bymtheg oed ymuno â'r fyddin. Dylai plant mewn parthau rhyfel gael gwarchodaeth arbennig.

### Erthygl 39

Dylai plant sydd wedi cael eu hesgeuluso neu eu cam-drin gael help arbennig i adfer eu hunan-barch.

### Erthygl 40

Dylai plant a gyhuddir o dorri'r gyfraith dderbyn help cyfreithiol. Dylid defnyddio dedfrydau o garchar i blant ar gyfer y troseddau mwyaf difrifol yn unig.

### Erthygl 41

Os yw cyfreithiau gwlad arbennig yn gwarchod plant yn well nag erthyglau'r Confensiwn, yna dylai'r cyfreithiau hynny aros.

### Erthygl 42

Dylai'r Llywodraeth wneud y Confensiwn yn hysbys i bob rhiant a phlentyn.

Hawliau Plant  
Cymru

Children's Rights  
Wales